

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ddisgyblion sydd yn defnyddio cludiant ysgol neu drafnidiaeth cyhoeddus i Ysgol/Coleg – Medi 2020

A fydd cludiant ysgol a choleg yn rhedeg ym mis Medi?

Bydd cludiant ysgol a choleg yn rhedeg ym mis Medi, ond efallai bydd newid i rai o'r trefniadau. Gwiriwch yr amserlenni bws ar wefan y Cyngor

[Bysus Ysgol](#)

[Bysus Coleg](#)

Pwysig iawn

Os bydd eich plentyn neu aelod o'ch cartref yn arddangos unrhyw un o'r symptomau canlynol, ni ddylech adael y tŷ. Mae hyn yn unol â Chyngor y Llywodraeth a'r GIG:

- tymheredd uchel
- peswch newydd, parhaus
- colli, neu newid, eich synnwyr o arogl neu flas

Mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau nad yw eich plentyn yn teithio os oes ganddo unrhyw un o'r symptomau hyn. Os bydd eich gweithredwr cludiant yn ymwybodol o symptom cyn teithio, caiff y cludiant ei wrthod.

Os bydd newid yn nhrefniadau eich tacsï/bws mini byddwch wedi derbyn llythyr yn cadarnhau hyn.

A oes angen tocyn bws i deithio ar fws Coleg/ysgol?

Oes neu ni chaniateir i ddysgwyr deithio.

Dylai pob dysgwr gyflwyno ei docyn teithio i'r gyrrwr wrth fynd ar y bws. Ni chaniateir i'r rhai sydd heb docyn teithio fynd ar y bws ysgol uwchradd a choleg.

Os ydi'r dysgwr wedi colli ei docyn bws mae'n hanfodol i chwi gysylltu a cludiant@gwynedd.llyw.cymru ar unwaith. Bydd tal o £5.00 am docyn newydd yn daladwy i swyddfa'r ysgol.

Oes rhaid i mi anfon fy mhlentyn ar fws/tacsï ysgol/Coleg?

Nid oes rhaid i chi anfon eich plentyn ar y cludiant ysgol. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn cynghori teuluoedd i ystyried dulliau amgen gan gynnwys cerdded neu feicio neu

defnyddio car preifat. Os ydych yn mynd i gludo eich plentyn i'r ysgol, cofiwch y gall fod mwy o draffig o amgylch ysgolion, felly caniatewch amser ychwanegol a byddwch hefyd yn ymwybodol iawn o blant yn cerdded yng nghyffiniau'r ysgol.

Sut allai fod yn siŵr bod gwasanaethau cludiant ysgol yn lân?

Mae cerbydau cludiant ysgol yn cael eu glanhau'n drylwyr yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Caiff manau sy'n cael eu defnyddio'n gyson e.e. handlenni ac unrhyw lle mae teithwyr yn cyffwrdd ynddynt yn aml, eu glanhau yn rheolaidd ac yn drylwyr.

Cynllun eistedd ar fws ysgol dynodedig

Bydd dysgwyr yn eistedd ar y bws mewn grwpiau blwyddyn, o'r tu blaen i'r cefn, o'r ieuengaf i'r hynaf. Bydd arwyddion ar y bws yn nodi ble mae bob blwyddyn i fod yn eistedd.

Bydd sicrhau bod yr un dysgwyr yn eistedd gyda'i gilydd bob amser yn helpu i leihau nifer y cysylltiadau sydd gan bob un.

Cynllun eistedd ar dacsï ysgol

Bydd dysgwyr yn eistedd mewn tacsï fel maent yn ei wneud yn arferol, os oes capasiti yn y cerbyd yna awgrymir i adael y sedd ffrynt yn wag.

Gwregysau diogelwch

I osgoi agosrwydd rhwng y gyrrwr a'r plant, dylai rhieni annog eu plant i roi gwregysau diogelwch arnynt eu hunain, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

A fydd yr un gyrrwr a'r un cerbyd yn cael ei ddefnyddio?

Lle bo hynny'n ymarferol bydd yr un gyrrwr a'r un cerbyd yn cael ei ddefnyddio.

Mae gan fy mhlentyn pas bws/trên gan y Cyngor a fydd angen i'm mhlentyn wisgo gorchudd wyneb ar y bws/tacsï/tren ysgol neu goleg ym mis Medi?

Os ydy'r bws/tacsi yn gludiant ysgol/coleg penodedig does dim angen gwisgo gorchudd wyneb gan ei fod yn peri llai o risg o ledaenu'r feirws na thrafnidiaeth sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Bydd angen i blentyn neu berson ifanc 11 oed neu'n hŷn sy'n teithio ar gludiant cyhoeddus cyffredin (Bws/trên) ble mae'r cyhoedd yn teithio, wisgo gorchudd wyneb.

Os yn teithio heb wisgo gorchudd wyneb ar wasanaethau cyhoeddus gellir cael dirwy neu gael eich rhwystro rhag teithio. Nid yw hyn yn wir yn achos teithwyr sy'n cael eu cynghori i beidio â gwisgo gorchudd wyneb sy'n cynnwys:

- plant dan 11 oed
- y rhai sy'n dioddef anawsterau anadlu
- plant anghenion dysgu ychwanegol

A fydd tymheredd disgyblion yn cael ei gymryd cyn teithio ar gludiant ysgol?

Na, ni fydd tymheredd disgyblion yn cael ei gymryd cyn iddynt ddefnyddio cludiant ysgol. Os oes ganddyn nhw dymheredd uchel neu os ydyn nhw'n dangos unrhyw symptomau o'r coronafeirws, peidiwch â gadael iddyn nhw deithio.

Nid oes gan fy mhlentyn hawl i gludiant am ddim. Ydy fy mhlentyn yn cael defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd i'r ysgol/coleg?

Ydy os oes sedd ar gael gan ystyried bod capasiti cludiant cyhoeddus wedi ei leihau. Bydd angen i blentyn neu berson ifanc 11 oed neu'n hŷn sy'n teithio ar gludiant cyhoeddus cyffredin ble mae'r cyhoedd yn teithio, wisgo gorchudd wyneb.

Beth sy'n digwydd os nad yw dysgwyr yn dilyn y cyfarwyddiadau

Fel sy'n digwydd nawr pan nad yw plant yn ymddwyn yn briodol ar gontractau ysgol, mi fydd y gyrrwr yn cysylltu â'r ysgol ar unwaith, bydd rhieni yn derbyn llythyr rhybudd ac os byddant yn parhau i ANUFUDDHAU i unrhyw gyfarwyddiadau byddant yn wynebu gwaharddiad o'r cludiant. O dan yr amgylchiadau hyn, cyfrifoldeb y rhieni fydd trefnu sut y bydd eu plentyn yn mynd i'r ysgol.

Cynllun Seddi Gweigion

Mae Cynllun Seddi Gweigion ar gludiant ysgol dynodedig wedi cael ei adfer.

Os oes dysgwr eisiau mynegi diddordeb mewn ymuno â'r cynllun o'r newydd, dylent gwblhau'r ffurflen gais am gludiant sydd i'w chael ar wefan y Cyngor.

Oes modd bwyta bwyd neu ddiod ar fws/taksi?

Ni chaniateir bwyta bwyd na diod ar unrhyw fath o gludiant ysgol neu gludiant cyhoeddus yn ystod y daith.

Beth os bydd fy mhlentyn yn mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol?

Bydd disgwyl i chi gasglu eich plentyn o'r ysgol. Ni fydd yn cael teithio adref ar gludiant ysgol.